

12.01.22

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Hoffwn gyflwyno amserlen ffug arholiadau Bl.12 a Bl.13 i chi fydd yn dechrau ar **Ionawr 24ain**. Ar y cyd gydag Ysgol Gyfun Gŵyr, rydym wedi penderfynu cynnal ffug arholiadau eleni a fydd yn ymdebygu i'r broses arholi allanol yn yr Haf gan nad ydy'r rhan fwyaf o fyfyrwyr y Chweched wedi bod yn y sefyllfa hon o'r blaen. Bydd y broses yn rhoi cyfle i'n myfyrwyr i ymgyswrtio â'r trefniadau ac i arbrofi gyda strategaethau adolygu personol. Mae'r disgyblion yn barod wedi derbyn cyflwyniad ar sut i adolygu'n effeithiol a bydd Tîm y Chweched yn parhau i ffocysu ar hyn yn ystod yr wythnosau nesaf.

Dyma wybodaeth bellach i chi am yr wythnos honno:

- **Ni fydd gwersi arferol i'r 6ed am yr wythnos** rhwng **24ain-28ain o Ionawr** a bydd hawl gan Fl.12/13 i adolygu adref yn ystod cyfnodau pan na fydd arholiad ganddynt.
- **Ni fydd teithio rhwng Bryn Tawe/Gŵyr** yn ystod yr wythnos (Serch hynny, bydd rhai gwersi yn parhau yn Gŵyr ac felly bydd modd i ddisgyblion Bryn Tawe ymuno ar TEAMS os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny. Bydd athrawon Gŵyr yn cysylltu gyda'r myfyrwyr os bydd gwersi).
- Os ydy myfyrwyr yn derbyn gwersi yn Gŵyr, byddan nhw'n sefyll yr arholiad yma ym Mryn Tawe – byddwn ni'n derbyn copiau o'r ffug arholiadau gan athrawon Gŵyr.
- Os oes gwrthdaro rhwng amseroedd arholiadau rhai myfyrwyr, gofynnwn iddynt ddod i weld naill ai Mr Ben Davies, Miss Catrin Lyall neu Mrs Rhian Edwards-Jones er mwyn i ni wneud trefniadau personol ar eu cyfer.

Rydym yn mawr obeithio y bydd y cyfnod hwn yn brofiad cadarnhaol i'r myfyrwyr ac yn datblygu eu hyder ar gyfer arholiadau allanol yr Haf. Mae'n bwysig felly bod y myfyrwyr yn paratoi ac yn gweld y cyfnod hwn fel cyfle i ddangos eu dysgu ac i dderbyn adborth er mwyn datblygu ymhellach. Yn ogystal â hyn, mae Cymwysterau Cymru a CBAC wedi darparu canllawiau wrth gefn i ysgolion **rhag ofn** na fydd yn bosib cynnal arholiadau. **Os** bydd cyfarwyddiadau yn cyrraedd ysgolion i bennu graddau ar gyfer eu myfyrwyr o ganlyniad i gollu arholiad oherwydd y pandemig, bydd y ffug arholiadau yn dystiolaeth gadarn o'u dysgu a'u perfformiad.

Os oes unrhyw gwestiwn pellach gennych, mae croeso i chi gysylltu gyda ni yn yr ysgol.

Yn ddifuant,

*Rhian Edwards-Jones* (Pennaeth Cynorthwyol/Dirprwy dros dro)



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe  
Heol Gwrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU  
Ffôn 01792 560600

[swyddfabryntawe5@hwbcymru.net](mailto:swyddfabryntawe5@hwbcymru.net)

[www.bryntawe.swansea.sch.uk](http://www.bryntawe.swansea.sch.uk)

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWYR  
MEWN POBL** | Aur



**Amserlen Arholiadau Mewnol Blwyddyn 12/13 – IONAWR 2022**  
*Year 12/13 Mock Examination Timetable*

Amser Timing	Dydd Llun Monday Ion 24	Dydd Mawrth Tuesday Ion 25	Dydd Mercher Wednesday Ion 26	Dydd Iau Thursday Ion 27	Dydd Gwener Friday Ion 28
9.00am	<p><b>BLWYDDYN 12 (Colofn A)</b></p> <p><b>Addysg Grefyddol:</b> 1 awr 10m  <b>Hanes (Uned 1):</b> 50 munud</p> <p><b>BLWYDDYN 13 (Colofn A)</b></p> <p><b>Daearyddiaeth:</b> 1 awr 15m  <b>Iechyd a Gofal:</b> 1 awr 30m  <b>Cemeg (Un 4):</b> 1 awr 45m</p>	<p><b>BLWYDDYN 12 (Colofn B)</b></p> <p><b>Add Gorfforol:</b> 1 awr 45m  <b>Ast. Cyfryngau:</b> 1 awr 30m  <b>Cymraeg (Uned 3):</b> 2 awr</p> <p><b>BLWYDDYN 13 (Colofn B)</b></p> <p><b>Add Gorfforol:</b> 1awr 30m  <b>Ffrangeg:</b> 1awr 30m  <b>Llenyddiaeth Saesneg (Uned 3):</b> 1 awr  <b>Bioleg:</b> 2 awr</p>	<p><b>BLWYDDYN 12 (Colofn C)</b></p> <p><b>Drama:</b> 1 awr 30m  <b>Gwleidyddiaeth (Uned 2):</b> 1 awr 30m  <b>Mathemateg (Uned 1):</b> 1 awr 30m</p> <p><b>BLWYDDYN 13 (Dim colofn)</b></p> <p><b>Mathemateg (Uned 4):</b> 1 awr 30m  <b>Llenyddiaeth Saesneg (Uned 4):</b> 1 awr</p>	<p><b>BLWYDDYN 12 (Colofn D)</b></p> <p><b>Daearyddiaeth:</b> 2 awr  <b>Ffrangeg:</b> 1 awr 30m  <b>Seicoleg:</b> 1awr 30m  <b>Iechyd a Gofal:</b> 1 awr 30m</p> <p><b>BLWYDDYN 13 (Colofn C)</b></p> <p><b>Gwleidyddiaeth (Uned 4):</b> 2 awr 30m  <b>Cymraeg (Uned 6):</b> 2 awr</p>	<p><b>Celf</b></p> <p><b>Ffotograffiaeth</b></p> <p><i>Unrhyw Arholiadau Coll / Gwrthdaro B112 &amp; 13</i></p>
1.00pm	<p><b>BLWYDDYN 12 (Colofn E)</b></p> <p><b>Busnes (Uned 1):</b> 2 awr  <b>Cemeg (Uned 1):</b> 1 awr 30m  <b>Llenyddiaeth Saesneg (Uned 1):</b> 1 awr 30m</p> <p><b>BLWYDDYN 13</b></p> <p><b>Saesneg Iaith (Uned 1):</b> 1 awr 45m</p>	<p><b>BLWYDDYN 12 (Dim colofn)</b></p> <p><b>Hanes (Uned 2):</b> 1 awr 45m  <b>Bioleg:</b> 2 awr</p> <p><b>BLWYDDYN 13 (Dim colofn)</b></p> <p><b>Cymraeg (Uned 5):</b> 2 awr  <b>Saesneg Iaith (Uned 2):</b> 2 awr</p>	<p><b>BLWYDDYN 12 (Dim colofn)</b></p> <p>Mathemateg (Uned 2): 1 awr</p> <p><b>BLWYDDYN 13 (Colofn D)</b></p> <p><b>Ast. Cyfryngau:</b> 1 awr 30m  <b>Addysg Grefyddol:</b> 1 awr 10m  <b>Busnes (Uned 3):</b> 2 awr  <b>Drama:</b> 1 awr 30m  <b>Mathemateg (Uned 3 – Pur):</b> 1 awr 30m</p>	<p><b>BLWYDDYN 13 (Colofn E)</b></p> <p><b>Seicoleg:</b> 50m  <b>Hanes (Uned 2):</b> 1 awr 45m</p> <p><i>Unrhyw Arholiadau Coll / Gwrthdaro B112 &amp; 13</i></p>	



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe  
 Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU  
 Ffôn 01792 560600

[swyddfabryntawe5@hwb.cymru.net](mailto:swyddfabryntawe5@hwb.cymru.net)

[www.bryntawe.swansea.sch.uk](http://www.bryntawe.swansea.sch.uk)

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWYR  
 MEWN POBL**

**Aur**





Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe  
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU  
Ffôn 01792 560600

[swyddfabryntawe5@hwbcymru.net](mailto:swyddfabryntawe5@hwbcymru.net)  
[www.bryntawe.swansea.sch.uk](http://www.bryntawe.swansea.sch.uk)

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWR  
MEWN POBL | Aur

